

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd)

Tachwedd 2021



1. Y cefndir

Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd)¹ (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mai 2021. Fe'i noddir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

2. Yn ôl ei deitl hir, dyma yw diben y Bil:

"A Bill to make provision about matters attributable to coronavirus that may not be taken account of in making certain determinations for the purposes of non-domestic rating; and to make provision in connection with the disqualification of directors of companies that are dissolved without becoming insolvent."

3. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 9 Medi 2021 ac ar hyn o bryd mae yng nghyfnod pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol y DU yn addasu neu'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

5. Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn nodi y dylai memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gael ei osod "dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno". Mae Rheol Sefydlog 29.2(iii) yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o Lywodraeth Cymru osod memorandwm mewn perthynas ag unrhyw Fil y DU sydd, yn rhinwedd gwelliannau a dderbynnir neu a gyflwynir gan un o Weinidogion y DU yn y naill Dŷ neu'r llall, yn gwneud (neu a fyddai'n gwneud) darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf neu y tu hwnt i derfynau unrhyw gydsyniad a roddwyd o'r blaen gan y Senedd, a hynny "dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl i'r gwelliannau gael eu cyflwyno neu eu derbyn".

¹ Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd), fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Cyffredin 011)

6. Ar 21 Medi 2021, gosododd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.²

7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 18 Tachwedd 2021.³

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

8. Mae paragraffau 11 i 14 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef y rheini yng nghymal 1 (ac eithrio is-gymal 1(9)).

9. Mae'r Memorandwm yn datgan:

*"Mae'r memorandwm hwn ond yn ymwneud â darpariaethau yng nghymal 1 o'r Bil sy'n ymwneud â thrin apelïadau ynghylch ardrethi annomestig ar sail newid sylweddol mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â Covid-19. Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag anghymhwysu cyfarwyddwyr yn ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli."*⁴

10. Mae cymal 1 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd) yn gwneud darpariaeth ynghylch pa faterion y gellir eu priodoli i'r coronafeirws y gellir eu hystyried wrth benderfynu:

- i. a ddylai hereditament (uned eiddo at ddibenion asesu rhwymedigaeth ardrethi busnes) ymddangos yn y rhestrau ardrethu; a
- ii. gwerthoedd ardrethol ar restrau ardrethu 2017 (ar gyfer cyfrifo swm y rhwymedigaeth ardrethi busnes).⁵

11. Wrth wneud y penderfyniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 10, mae cymal 1(4) o'r Bil yn darparu, yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig, na ddylid ystyried unrhyw fater y gellir ei briodoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r coronafeirws.

² Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethu \(Coronafeirws\) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr \(Cwmnïau a Ddiddymwyd\)](#), Medi 2021

³ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu \(Coronafeirws\) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr \(Cwmnïau a Ddiddymwyd\)](#), Medi 2021

⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 11

⁵ Mae'r broses ar gyfer herio ardreti annomestig ar sail newid sylweddol mewn amgylchiadau yng Nghymru yn cael ei llywodraethu gan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758 (W.63))

Rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil

12. Mae paragraffau 15 i 17 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau dros gynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil.

13. Mae'r Memorandwm yn datgan:

"Dim ond drwy deddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y newidiadau hyn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newidiadau hyn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi'i ddiystyru gan nad oes unrhyw gyfrwng deddfwriaethol addas wedi'i gynllunio o fewn yr amserlen sy'n angenrheidiol ar gyfer y darpariaethau hyn. Byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at ansicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. (...)

Byddai angen gosod, trafod, pasio a chychwyn Bil Llywodraeth Cymru er mwyn i'r newidiadau fod yn effeithiol yn ôl-weithredol. (...) Byddai cydsynio i ddarpariaethau yn y Bil yn ei gwneud yn bosibl datrys y mater yn brydlon..."⁶

14. Mae paragraff 17 o'r Memorandwm yn mynd ymlaen i nodi:

"Byddai'r Bil yn sicrhau bod apeliadau yng Nghymru yn cael eu trin mewn ffordd sy'n gydnaws â Lloegr, a bod trethdalwyr Cymru yn cael eu trin mewn modd cyson."⁷

15. Barn y Gweinidog, fel y nodir yn y Memorandwm, yw ei bod yn "briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU i liniaru'r risgiau ariannol ac am resymau amseru, yn ogystal â sicrhau cysondeb o fewn y system ardrethi annomestig a gwarchod diben newid sylweddol mewn amgylchiadau fel sail ar gyfer apelio."⁸

16. Mae'r Memorandwm yn dod i'r casgliad:

"Mae natur gydgysylltiedig systemau Cymru a Lloegr, a rôl Asiantaeth y Swyddfa Brisió wrth ymdrin ag apeliadau, hefyd yn ategu'r angen i weithredu'r darpariaethau ar yr un pryd ac yn yr un offeryn deddfwriaethol."⁹

⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraffau 15 ac 16

⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 17

⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 20

⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 20

2. Trafodaeth y Pwyllgor

17. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 18 Hydref 2021.¹⁰ Nid oeddem mewn sefyllfa i gymryd tystiolaeth lafar gan y Gweinidog yn sgil yr amserlen ar gyfer gwaith craffu. Fodd bynnag, fe wnaethom ni ysgrifennu at y Gweinidog ar 19 Hydref i ofyn am eglurhad ar ddau bwynt penodol, a drafodir isod.¹¹ Ymatebodd y Gweinidog ar 2 Tachwedd 2021.¹²

Ein barn ni

Y Memorandwm

18. Ym mharagraff 2 o'r Memorandwm, nodir fel a ganlyn:

"Cyflwynwyd y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mai 2021. Mae'r Bil i'w weld yn: <https://bills.parliament.uk/bills/2861>".

19. Er na chafodd ei osod tan ar ôl i'r Bil gwblhau ei daith trwy'r tŷ cyntaf yn Senedd y DU, nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Memorandwm bod y Bil wedi'i ddiwygio, ac nid oes unrhyw fanylion ychwaith am unrhyw welliannau y mae'r Gweinidog yn eu ceisio i'r Bil.

20. O'r herwydd, mae'r Memorandwm yn awgrymu ei fod yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil adeg ei gyflwyno.

21. Fodd bynnag, nid yw cymal 1 yn y fersiwn honno o'r Bil yn gymwys i Gymru. Yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, cadarnhaodd Llywodraeth y DU fod polisi ardrethi busnes wedi'i ddatganoli'n llawn, bod cymal 1 yn ymestyn i Gymru a Lloegr a'i fod yn gymwys i Loegr yn unig.¹³ Yn unol â hynny, cadarnhaodd Llywodraeth y DU hefyd nad oedd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei geisio gan y Senedd.¹⁴

22. Fel rhan o'n gwaith o drafod y Memorandwm, fe wnaethom ni nodi bod y Gweinidog, ar 7 Gorffennaf 2021, wedi gwneud datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru

¹⁰ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Hydref 2021](#)

¹¹ [Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 19 Hydref 2021](#)

¹² [Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Tachwedd 2021](#)

¹³ Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd), [Nodiadau Esboniadol](#), (Bil 11-EN), paragraff 37

¹⁴ Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd), [Nodiadau Esboniadol](#), (Bil 11-EN), Atodiad A

i ddeddfu "drwy geisio cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil *Rating (Coronavirus) and Directors Disqualification (Dissolved Companies) Llywodraeth y DU*".¹⁵

23. Daethom yn ymwybodol, yn dilyn hynny, y diwygiodd Llywodraeth y DU y Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi i ymestyn cymhwysiad cymal 1 o'r Bil i Gymru. Yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi¹⁶ ar 10 Medi, mae Llywodraeth y DU yn datgan:

*"Since the Bill's Introduction, the Scottish and Welsh Governments have announced their intention to make corresponding provision in respect of Covid-related business rates appeals. The Government, at the request of the Welsh Government, tabled amendments to the Bill at Commons Report stage to extend application of Clause 1 to non-domestic rating lists compiled for the purposes of business rates in Wales (as well as lists for England)."*¹⁷

24. Yn ein llythyr at y Gweinidog, fe wnaethom ni ofyn pam nad yw'r Memorandwm yn cyfeirio at unrhyw un o'r materion hyn y manylir arnynt uchod.

25. Nid yw sylwadau agoriadol y Gweinidog yn ei hymateb i'n llythyr yn ein hargyhoeddi. Dywedodd y Gweinidog:

*"Nid oedd cefndir y Bil wedi'i gynnwys yn y Memorandwm, sy'n canolbwyntio ar ddarpariaethau perthnasol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer."*¹⁸

26. Yn gyntaf, nid yw'n eglur pam mae'r Gweinidog o'r farn y dylid cyfrif ei gweithred o ofyn am ddiwygio Bil y DU i fod yn gymwys yng Nghymru fel gwybodaeth 'gefndir'. Yn ail, rydym hefyd yn ansicr pam roedd y Gweinidog yn credu bod gwybodaeth o'r fath yn llai pwysig i Aelodau o'r Senedd na'r sawl paragraff o wybodaeth ynghylch amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil sydd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm. Yn ein barn ni, ac er budd penderfyniadau agored a thryloyw gan y Llywodraeth, mae'n fater pwysig i dynnu sylw'r Senedd ato fel rhan o'i gwaith o drafod y mater o gydsynio.

27. Yn ei llythyr, dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod y Bil wedi'i gyflwyno i Senedd y DU "heb drafodaeth ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid cynnwys darpariaethau

¹⁵ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Coronafeirws: Apelau Ardrethu Annomestig a Chymorth Cyllid Dewisol](#), 7 Gorffennaf 2021

¹⁶ [Y Bil Ardrethu \(Coronafeirws\) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr \(Cwmnïau a Ddiddymwyd\)](#), fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi (Bil Tŷ'r Arglwyddi 50)

¹⁷ Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd), [Nodiadau Esboniadol](#), (Bil Tŷ'r Arglwyddi 50-EN), paragraff 7

¹⁸ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Tachwedd 2021

ar gyfer Cymru".¹⁹ Dylai'r datganiad hwn, sy'n berthnasol i'r darlun cyffredinol o weithio rhynglywodraethol, fod wedi'i gynnwys yn y Memorandwm fel bod modd craffu arno. Mae'n codi pwynt pwysig. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn cydnabod bod y mater wedi'i ddatganoli'n llawn, nid yw'n eglur a yw'r Gweinidog yn awgrymu y dylai Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru fel mater o drefn i weld a yw Llywodraeth Cymru eisiau darpariaethau deddfwriaethol fel rhan o Fil y DU. Byddai sefyllfa o'r fath yn anfoddhaol.

28. O ran y Gweinidog yn ceisio ehangu cymhwysiad y Bil i Gymru, dywedodd y Gweinidog:

*"Yn dilyn yr etholiad [Senedd], lluniwyd dull o ymdrin â'r Bil ac ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 27 Gorffennaf yn gofyn am i ddarpariaethau perthnasol i Gymru gael eu cynnwys yn y Bil. Cefais ymateb ar 3 Medi gan y Gweinidog dros Dwf Rhanbarthol a Llywodraeth Leol ar y pryd yn cadarnhau y byddai darpariaethau perthnasol ar gyfer Cymru yn cael eu cyflwyno fel gwelliant yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi."*²⁰

29. Mae'r esboniad hwn gan y Gweinidog yn cadarnhau'r wybodaeth yr oeddem yn gallu ei darganfod wrth adolygu'r trafodion ar y Bil yn Senedd y DU.

Casgliad 1. Mae'n anfoddhaol nad oedd y wybodaeth y bu'n rhaid i ni ofyn amdani gan y Gweinidog wedi'i chynnwys yn y Memorandwm fel y'i gosodwyd gerbron y Senedd. Mewn amgylchiadau o'r fath lle mae'r amserlenni'n golygu nad yw Pwyllgorau'r Senedd yn gallu gwneud gwaith craffu effeithiol, byddai gofyn i'r Senedd drafod a phleidleisio ar gynnig cydsyniad perthnasol heb gael y ffeithiau llawn. Mae amgylchiadau o'r fath yn annerbyniol.

Argymhelliad 1. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog roi'r manylion llawn i holl Aelodau'r Senedd ynghylch sut, pryd a pham y gofynnodd y Gweinidog i'r Bil Lloegr yn unig, a gyflwynwyd i Senedd y DU, gael ei ddiwygio fel bod ei gymhwysiad yn cael ei ymestyn i Gymru. Dylai manylion o'r fath gynnwys esboniad o'r oedi rhwng hysbysu Aelodau o'r Senedd ar 7 Gorffennaf am ei bwriad i geisio gwelliannau i'r Bil ac ysgrifennu'n ffurfiol at Lywodraeth y DU ar 27 Gorffennaf.

30. Fe wnaeth datganiad ysgrifenedig y Gweinidog ym mis Gorffennaf gyfeirio hefyd at y rheoliadau sydd ar y gweill. Yn ei datganiad, dywedodd y Gweinidog:

¹⁹ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Tachwedd 2021

²⁰ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Tachwedd 2021

*"Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno rheoliadau yng Nghymru a fydd yn cael effaith debyg i'r darpariaethau sydd i'w cynnwys ym Mil y DU, a byddai'r rheoliadau hynny yn gymwys hyd nes y daw Bil y DU yn gyfraith."*²¹

31. Gwnaeth Gweinidogion y DU *Valuation for Rating (Coronavirus) (England) Regulations 2021* (Rheoliadau Lloegr) ar 24 Mawrth eleni, a bydd cymal 1(9) o'r Bil yn dirymu Rheoliadau Lloegr os a phan fydd y Bil yn cael ei ddeddfu.

32. O ystyried nad oeddem yn ymwybodol bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y rheoliadau ar gyfer Cymru, fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog roi eglurder ar y mater.

33. Ar 1 Tachwedd, ar ôl anfon ein llythyr a chyn cael ymateb y Gweinidog, gosododd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (Rheoliadau Cymru) gerbron y Senedd.

34. Yn ei llythyr atom ar 2 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog:

*"O ran gwneud Rheoliadau perthnasol, brynhawn ddoe gosodais y Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021. Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 6pm neithiwr ac maent yn cael yr effaith o atal, o hyn ymlaen, apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ceisio dibynnu ar faterion sy'n ymwneud â Covid-19. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ymgynghori ar y Rheoliadau hyn, a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft rhwng 16 Awst a 27 Medi: cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 21 Hydref."*²²

35. Er ein bod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ymgynghori ar fersiwn ddrafft o Rheoliadau Cymru, rydym eto'n aneglur pam nad yw'r Memorandwm yn cynnwys unrhyw fanylion am y ffaith hon.

36. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Rheoliadau Cymru, ac o ran pryd y daw'r Rheoliadau hynny i rym, mae'r Gweinidog yn cyfeirio at reidwydd "o ystyried y risg uniongyrchol i gyllid cyhoeddus".

37. Er gwaethaf sylwadau'r Gweinidog ynghylch y penderfyniad i gynnal ymgynghoriad, rydym yn pryderu bod rheoliadau brys o'r fath wedi'u gwneud yng Nghymru dros saith mis ar ôl gwneud darpariaeth debyg yn Lloegr drwy Rheoliadau Lloegr.

²¹ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Coronafeirws: Apelau Ardrethu Annomestig a Chymorth Cyllid Dewisol, 7 Gorffennaf 2021

²² Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Tachwedd 2021

Argymhelliad 2. Cyn y ddatl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog roi manylion llawn i Aelodau o'r Senedd am y rhesymau dros yr oedi hwn ac unrhyw effaith andwyol gysylltiedig ar gyllid cyhoeddus Cymru.

38. Mae llythyr y Gweinidog hefyd yn cadarnhau "oherwydd cyfyngiadau amser, ni fu modd cynnwys cymal yn y Bil sy'n dirymu'r Rheoliadau [Cymru]" ac y bydd y Gweinidog yn gosod rheoliadau pellach i ddirymu Rheoliadau Cymru i gyd-fynd ag amseriad y Cydsyniad Brenhinol.²³ Nodwn y safbwynt hwn.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

39. Gan droi at y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, sef cymal 1 o'r Bil.

40. At ddibenion ein gwaith trafod, aethom ati i gymharu'r Memorandwm â'r fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi, ac rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru.

41. Yn ein barn ni, mae'r darpariaethau yng nghymal 1 o'r Bil, ac eithrio cymal 1(9) (fel y cyfeirir atynt uchod ym mharagraff 31), yn ymwneud â Chymru, a dylid ceisio cydsyniad y Senedd oherwydd bod y darpariaethau'n dod o fewn cymhwysedd y Senedd.

42. Nodwn nad yw cymal 1 o'r Bil yn cynnwys unrhyw bwerau newydd i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

43. Rydym yn cydnabod bod cymal 1 yn rhagnodi rhagdybiaethau at ddibenion pennu gwerth ardrethol ar gyfer eiddo annomestig. Nodwn, er bod gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud darpariaeth o'r fath drwy reoliadau²⁴, na all darpariaeth reoleiddiol o'r fath fod yn ôl-weithredol. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn diwallu'r amcan polisi sy'n cynnwys cymhwyso ôl-weithredol.

²³ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Tachwedd 2021

²⁴ Mae paragraff 2(8) o Atodlen 6 o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* yn cynnwys pŵer sydd bellach wedi'i freinio i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil

44. Nodwn resymau'r Gweinidog dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil, fel y cyfeirir ato uchod ym mharagraffau 12 i 16 a pharagraff 43.

Casgliad 2. Rydym yn pryderu'n arbennig am y rhesymu a nodir ym mharagraff 17 o'r Memorandwm, sef y byddai'r Bil "yn sicrhau bod apeliadau yng Nghymru yn cael eu trin mewn ffordd sy'n gydnaws â Lloegr". Yn ein barn ni, mae'r rhesymu hwn yn awgrymu mai'r sefyllfa ar gyfer Lloegr yw'r norm a'r safbwynt diofyn, ond dylai'r egwyddor sy'n arwain y gwaith hwn fod yn ddatrysiad sy'n diwallu anghenion y rheini yng Nghymru y mae'r deddfwriaeth yn effeithio arnynt.

Casgliad 3. At hynny, er ein bod yn cydnabod barn y Gweinidog, drwy wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil, "[y byddai] trethdalwyr Cymru yn cael eu trin mewn modd cyson", nid yw'n eglur a fyddai'r Gweinidog yn gwneud, ac a ddylai wneud, yr un ddarpariaeth yn union ar gyfer trethdalwyr Cymru drwy Fil ar gyfer Cymru o ystyried nad yw darpariaethau o'r fath wedi'u profi gyda'r rhanddeiliaid hyn.